# "FI YW"

## Cynllun Gwers

BARNARDO'S CYMRU




| Cynllun Gwers | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Fi Yw**<br><br>**Nod:** Cyflwyno'r rhaglen a galluogi myfyrwyr i adeiladu amgylchedd ddysgu barchus tra'n nodi eu cryfderau a'u galluoess eu hunain.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr yn gallu:<br>• Adnabod eu cryfderau, eu galluoedd a nodweddion cadarnhaol.<br>• Dechrau adeiladu perthynas barchus â'i gilydd fel grŵp. | **Cyflwyniad**<br>**Mae Rheolau'r Grŵp yn egluro** – er mwyn gweithio gyda'n gilydd, mae'n rhaid i ni sefydlu rhai rheolau o fewn y grŵp.<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr beth fydden nhw'n ei ystyried yn bwysig wrth weithio gyda'i gilydd drwy'r rhaglen i sicrhau eu bod yn parchu ei gilydd a'u hunain.<br>• Ysgrifennwch y rhain ar siart droi a'u harddangos ym mhob sesiwn fel y gall y myfyrwyr gyfeirio atynt os oes angen. | Gweithgaredd Dosbarth | Siart droi Papur Beiros | Dosbarth Cyfan |
| | **Cyflwyno'r Llyfrau Gwaith** | **Llyfrau Gwaith** | | |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>Gweithgaredd: **Enw Anagram**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi nodweddion cadarnhaol gan ddefnyddio llythrennau eu henw.<br>• Dangoswch enghraifft (wedi'i atodi) os oes angen.<br>• Ewch ati i annog y myfyrwyr i roi adborth ar eu hanagramau i'r grŵp. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 3 | Unigolyn |
| | **Cyflwyno Gweithgaredd**<br>Gweithgaredd: **Pwy ydw i?**<br>Yn y drych yn y Llyfrau Gwaith, gofynnwch i'r myfyrwyr dynnu llun neu ysgrifennu eu rhinweddau, eu cryfderau, eu galluoedd a beth maent yn eu hoffi am eu hunain.Efallai y bydd rhai plant yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ffactorau cadarnhaolam eu hunain. Gofynnwch iddynt ofyn i ffrind beth yw eu barn hwy amdanynt. Atgoffwch yr holl fyfyrwyr y dylent fod yn barchus. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 4 | Unigolyn<br><br>Mewn parau (os oes angen) |

## Enw Anagram (enghraifft)

**P** Pert
**A** Athletau
**T** Taclus

**M** Meddylgar
**A** Addfwyn
**D** Doniol
**D** Deallus
**I** Ifanc

## Thema 1
# Fy nghorff



| Thema 1. Fy nghorff | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Yr hyn sy'n fy ngwneud i yn fi.**<br><br>**Nod:** Archwilio gwahanol rannau o'r corff gyda'r myfyrwyr a'u helpu i adnabod pa rannau o'u cyrff sy'n cael eu hadnabod fel rhannau preifat, a dysgu'r derminoleg gywir ar eu cyfer.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Adnabod rhannau o'r corff ac wedi archwilio'r gwahanol eiriau a ddefnyddir i'w disgrifio.<br>• Deall pa rannau o'r corff sy'n breifat a deall pwysigrwydd adnabod a defnyddio terminoleg gywir. | **Cyflwyniad – Cyflwyno'r them** | | | |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Fy nghorff**<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am wahanol rannau o'u cyrff.<br>Gofynnwch i'r dosbarth alw allan cymaint o rannau o'r corff ag y gallant a'u hysgrifennu ar y bwrdd troi/bwrdd gwyn. | Gweithgaredd Dosbarth | Siart droi/ Bwrdd Gwyn/ Beiros | Dosbarth Cyfan |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Rhannau Corff Benyw/Gwryw**<br>• Yn eu Llyfrau Gwaith, gofynnwch i'r myfyrwyr dynnu llinell o'r gair i'r rhan gywir o'r corff. **Noder bod gan bob taflen waith rai rannau preifat o'r corff sy'n ymwneud â'r rhyw arall, er mwyn helpu'r myfyrwyr i nodi pa rannau sy'n perthyn i bob rhywedd.** | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 5&6 | Unigolyn |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgareddau – Rhannau Preifat o'r Corff**<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr: A ddylid cadw unrhyw un o'r rhannau hyn o'r corff yn 'breifat'? **Noder: defnyddiwch y drafodaeth i archwilio'r iaith a ddefnyddir ar gyfer rhannau'r corff.**<br>• Pa dermau sy'n gywir ar gyfer y geiriau hyn?<br>• Gan ddefnyddio'r taflenni gwaith 'rhannau corff benyw a gwryw' o'r gweithgaredd blaenorol, gofynnwch iddynt dynnu sylw at rannau o'r corff sy'n breifat trwy roi cylch o'u cwmpas neu uwcholeuo'r geiriau. | Gweithgaredd Dosbarth<br><br><br><br>Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Dwylo i fyny<br><br><br><br>Tudalen llyfr gwaith 5&6 | Dosbarth Cyfan<br><br><br><br>Unigolyn |

| Thema 1. Fy nghorff | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Rheolau: Preifatrwydd a Chyffwrdd**<br><br>**Nod:** Cydnabod pwysigrwydd y rheolau sy'n ymwneud â phreifatrwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Trafod y rheolau yn ymwneud â'r corff.<br>• Trafod rheolau o fewn senarios gwahanol ynghylch preifatrwydd. | **Gweithgaredd – Rheolau**<br>Cyflwyno'r syniad o reolau ynghylch cyrff trwy ofyn i'r myfyrwyr,<br>• *Pa reolau sydd ar gyfer ein cyrff??*<br>Ysgrifennwch y rheolau ar y bwrdd troi/bwrdd gwyn.<br>**Preifat neu Gyhoeddus**<br>Gofynnwch i hanner y dosbarth ystyried rhannau preifat o'r corff, a gofynnwch i hanner arall y dosbarth ystyried rhannau cyhoeddus. Trafodwch a rhowch enghreifftiau o'r rhain. | Gweithgaredd Dosbarth<br><br>Gweithgaredd Dosbarth | Siart droi/ Bwrdd Gwyn<br><br>Siart droi Papur Beiros | Dosbarth Cyfan<br><br>Grwpiau Bach |
| | **Gweithgaredd– Preifatrwydd**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr, mewn grwpiau bach, drafod ac ysgrifennu i lawr; pam mae preifatrwydd mor bwysig i bobl ifanc o'u hoed hwy. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 7 | Unigolyn |
| | **Gweithgaredd– 'Iawn a Ddim yn Iawn"**<br>Eglurwch i'r myfyrwyr fod 'preifatrwydd' ein cyrff yn golygu pethau gwahanol mewn sefyllfaoedd gwahanol. Yn dilyn pob senario, fel grwpiau bach, trafodwch a yw'r ymddygiad yn 'Iawn' neu 'Ddim yn Iawn'.<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu'r rhain yn eu llyfrau gwaith. Gofynnwch am adborth pam eu bod wedi dewis yr ateb hwn a'i ddilysu fel grŵp cyfan. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 7 | Unigolyn |

A yw'n **IAWN/DDIM YN IAWN** i fod yn noeth yn y lleoedd canlynol?

- Ystafelloedd Newid
- Ystafell wely
- Cegin
- LLlyfrgell
- Ysgol
- Ar y bws
- Yn y siop
- Parcyn y feddygfa
- Yn newid cewyn babi
- Clwb Ieuenctid

A fyddai'n **IAWN/DDIM YN IAWN** i wisgo siwt nofio i'r ysgol? ____________________

| Thema 1. Fy nghorff | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Rheolau: Preifatrwydd**<br><br>**Nod:** Cydnabod pwysigrwydd rheolau sy'n ymwneud â phreifatrwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Nodi beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn wrth ystyried preifatrwydd yn y gwahanol sefyllfaoedd all-lein ac ar-lein. | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Preifatrwydd Ar-lein**<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr a yw'r rheolau o ran preifatrwydd yr un fath ar-lein ac all-lein?<br>Gofynnwch am adborth pam eu bod wedi dewis y atebion a'u dilysu fel grŵp. | | Dwylo i fyny | Dosbarth Cyfan |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Preifatrwydd Ar-lein**<br>• Mewn grwpiau bach gofynnwch i'r myfyrwyr pa reolau sydd ynghylch preifatrwydd ar-lein.<br>Gofynnwch am adborth gan y grwpiau pam eu bod wedi dewis yr atebion hyn yn cadarnhau ac yn dilysu fel grŵp cyfan. Ysgrifennwch yr atebion yn eich llyfrau gwaith. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 8 | Grwpiau Bach |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Ydw i'n bryderus?**<br>• Darllenwch bob un o'r senarios a gofynnwch i'r myfyrwyr sefyll i fyny os ydyn nhw'n bryderus, ac i barhau i eistedd os nad ydyn nhw'n bryderus.<br>• Gwnewch yr un peth ar gyfer pob senario a ddarllenir.<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr roi adborth ar eu penderfyniadau i sefyll neu barhau i eistedd.<br>• Trafodwch gyda'r dosbarth eu meddyliau, yn dilyn pob Senario. | Gweithgaredd Dosbarth | Senarios | Dosbarth Cyfan |

# Rwy'n Bryderus?

**Senario 1**

Rydych chi'n cael cais i fod yn ffrind gan chwaraewr nad ydych chi'n ei adnabod mewn gêm. "Hei, ti'n dda! Dylse ni chwarae gyda'n gilydd! Ychwanega fi fel ffrind?"

**Senario 2**

Rydych chi'n cael neges ar eich ffôn symudol gan rywun nad ydych chi'n ei adnabod. "Helo, Corey sydd yma! Fe wnaethon ni gwrdd yr haf diwethaf, wyt ti'n cofio? Ychwanegu

**Senario 3**

Rydych chi'n cael neges gan rywun nad ydych chi'n ei ddilyn. "Hei! Rwy'n caru dy negeseuon, rwyt ti'n ddoniol! Byddwn i'n hoffi dod i dy adnabod di, ychwanega fi fel ffrind!"

**Senario 4**

Rydych chi'n cael neges gan rywun nad ydych chi'n ei adnabod ar Messenger. "Fe welais ti yn y neuadd heddiw! Rwyt ti'n ciwt! Alla i gael dy rif ffôn a gallwn siarad mwy?"

**Senario 5**

Rydych chi'n cael neges ar-lein. "Hei, mae gennym ni ffrindiau cyffredin ac fe welais ti ar-lein. Rwy'n dy hoffi di! Ychwanega fi fel ffrind!"

| Thema 1. Fy nghorff | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Rheolau - Cyffwrdd**<br><br>**Nod:** Archwilio gwahanol fathau o gyffwrdd a chefnogi myfyrwyr i adnabod beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn o ran cyffwrdd eraill a chael eich cyffwrdd.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, b ydd y myfyrwyr wedi:<br>• Ymchwilio i ystyr cyffwrdd, y gwahanol fathau o gyffwrdd a'r rhesymau gwahanol dros gyffwrdd.<br>• Trafod beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn o ran eu cyrff a chyffwrdd.<br>• Nodi beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn mewn sefyllfaoedd gwahanol. | Ailedrychwch ar y **rheolau** yn ymwneud â'r corff. Amlygwch y gair 'cyffwrdd' os yw hyn yn cael ei nodi. Os nad ydyw, cyflwynwch y rheol gyffwrdd. | | | |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Cyffwrdd**<br>Gofynnwch y cwestiwn canlynol i'r myfyrwyr:<br>• C1. Pan rydych chi'n clywed y gair cyffwrdd, beth mae'n ei olygu i chi?<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y cwestiwn canlynol:<br>• C2. Pam y byddai rhywun eisiau cyffwrdd â rhywun arall? **Ysgrifennwch yr atebion ar y Diagram Pry Cop yn y Llyfrau Gwaith.** | Gweithgaredd Dosbarth<br><br>Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Dwylo i fyny<br><br>Tudalen llyfr gwaith 9 | Dosbarth Cyfan<br><br>Unigolyn |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – IAWN/DDIM YN IAWN**<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi rhannau o'r corff lle byddent yn IAWN (✓) a DDIM YN IAWN (**X**) i gael eu cyffwrdd. **Nodyn: Amlygwch y gall fod gwahaniaethau rhwng pob un ohonynt yn y dosbarth, o ran yr hyn y maent yn gyfforddus ag ef ag yn anghyfforddus ag ef o ran cyffwrdd.** | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 10 | Unigolyn |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – 'IAWN' a 'DDIM YN IAWN'**<br>• Rhowch bâr o gardiau 'Iawn' a 'Ddim yn Iawn' i bob grŵp.<br>• Darllenwch bob senario a gofynnwch i'r myfyrwyr, yn eu grwpiau i ystyried a yw'r ymddygiad yn Iawn neu Ddim yn Iawn.<br>• Gofynnwch i'r grwpiau ddangos eu hatebion (cardiau).<br>• Gofynnwch am adborth gan bob grŵp i egluro eu penderfyniadau. | Gweithgaredd Dosbarth | Senarios Cyffwrdd Cardiau IAWN/ DDIM YN IAWN (ynghlwm) | Grwpiau Bach |

# Ydi hi'n **IAWN/DDIM YN IAWN**

I gael eich cusanu heb eich caniatâd?

Os yw rhywun yn gofyn i chi am gwtch?

Ac mae rhywun yn rhoi cwtch i chi heb ofyn i chi os ydych eisiau cwtch?

Os yw'r person yn eich anwybyddu a chithau eisoes wedi dweud na wrthynt?

Cyffwrdd gwallt rhywun?

Os bydd rhywun yn dal eich llaw?

Os mae rhywun yn gofyn i chi gyffwrdd a'ch rhannau preifat?

**IAWN**

**DDIM YN IAWN**

Thema 2

# Fy Natblygiad






| Thema 2. Fy Natblygiad | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad y corff**<br><br>**Nod:** Adnabod y camau datblygu o fewn y cylch bywyd dynol ac archwilio sut mae cyrff yn newid dros amser yn gorfforol o ran ymddangosiad a galluoedd.<br><br>**Amcanion:**<br>• Archwilio'r cylch bywyd dynol.<br>• Adnabod yr enwau a'r oedrannau cywir o fewn y Cylch.<br>• Deall y gwahaniaethau rhwng pob cam o'r datblygiad. | **Cyflwyno'r thema** | | | |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgareddau – Cylch Bywyd Dynol**<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr rifo'r lluniau yn eu trefn yn gywir yn ôl datblygiad dynol (1 yw'r cyntaf).<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr (oddeutu) pa mor hen yw pob bod dynol o dan bob llun. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 12 | Unigolyn |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Gwahaniaethau Corfforol**<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am enghreifftiau o 'Sut maen nhw'n wahanol nawr o'i gymharu a phan oeddent yn iau?' | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 13 | Dosbarth Cyfan |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y gweithgaredd canlynol yng nghyd-destun ymddangosiad a galluoedd:<br>• **Grŵp 1** – Sut mae plentyn yn wahanol i fabi?<br>• **Grŵp 2** – Sut mae plentyn yn wahanol i rywun yn ei arddegau?<br>• **Grŵp 3** – Sut mae rhywun yn ei arddegau yn wahanol i oedolyn?<br>• **Grŵp 4** – Sut mae oedolyn ifanc yn wahanol i rywun oedrannus?<br>Gofynnwch i bob grŵp roi adborth ar eu hymatebion i weddill y dosbarth ac annog y grwpiau eraill i gynnwys unrhyw ffactorau eraill y gallan nhwmfeddwl amdanynt. | Gweithgaredd Dosbarth | Papur Siart droi<br><br>Grŵp 1 - 4 Cerdyn (wedi'i atodi) | 4 Grŵp |

**Grŵp 1**

**Babi v Plentyn Ifanc**

**Grŵp 2**

**Plentyn Ifanc vs Arddegau**

**Grŵp 3**

**Arddegau vs Oedolyn Ifanc**

**Grŵp 4**

**Oedolyn Ifanc vs Oedolyn Hŷn**


| Thema 2. Fy Natblygiad | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau yn fy Nghorff – Glasoed**<br><br>**Nod:** Ymchwilio newidiadau i'r corff yn ystod y glasoed. | **Cyflwyno Glasoed** | | | |
| | Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y cwestiynau canlynol:<br>• Beth yw'r glasoed??<br>• Pa oedran fyddwn ni'n ei ystyried y byddai rhywun yn y cyfnod glasoed?<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr roi adborth cyn rhoi'r atebion.<br>**Oddeutu rhwng 11 a 18 oed.** | Gweithgaredd Dosbarth | Dwylo i fyny | Dosbarth Cyfan |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Glasoed**<br>Ystyriwch y cwestiynau canlynol:<br>**C1. Beth yw Glasoed?**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr roi eu dwylo i fyny os ydyn nhw wedi clywed am y glasoed.<br>**C2. Pa oedran fyddai rhywun sy'n mynd trwy gyfnod y Glasoed? A yw'r un yn wir am fechgyn a merched?** | Gweithgaredd Dosbarth | Dwylo i fyny | Dosbarth Cyfan |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Newidiadau yn ystod y glasoed**<br>**C3. Pa newidiadau sy'n digwydd i ferched?**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr labelu gwahanol newidiadau i ferched gan ddefnyddio'r templed corff a ddarperir.<br>**C4. Pa newidiadau sy'n digwydd i ddynion?**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr labelu gwahanol newidiadau i ddynion ganddefnyddio'r templed corff a ddarperir.<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr, i ysgrifennu yn y templed swigen meddwl a ddarperir '**Beth yw eich pryderon ynghylch y Glasoed?**' | Gweithgaredd Llyfr Gwaith<br><br>Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Templedi Corff<br><br>Templed Swigen Meddwl | Unigolyn<br><br>Unigolyn |

## Pa bryderon sydd gennyf?

## Glasoed


- Rhowch arwyddion rhwng rhannau y corff a'r frawddegau isod.
- Mae rhai o'r newidiau isod yn digwydd I ferched yn unig, rhai yn digwydd I fechgyn yn unig, a rhai yn digwydd I fechgyn ac I ferched.
- Lliwiwch y newidiadau I ferched yn **goch**, newidiadau I fechgyn yn **wyrdd** a newidiadau I'r ddau un **las**.

**Ferched**




- Gwallt wyneb yn tyfu
- Llais yn dyfnhau
- Bronnaun tyfu
- Mynd yn fwy cyhyrog
- Wyau yn cael eu rhyddhau
- Gwallt piwbig yn tyfu
- Pidyn yn mynd yn fwy
- Sbermaun cael eu cynhyrchu
- Mislif un dechrau
- Cluniaun lledu
- Top y coesau'n mynd yn fwy

**Fechgyn**




| Thema 2. Fy Natblygiad | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad fy ymennydd**<br><br>**Nod:** Adnabod y newidiadau i'w hymennydd trwy ddatblygu ac archwilio'r gwahanol rannau o'r ymennydd.<br><br>**Amcanion**<br><br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Cydnabod y gwahanol rannau o'r Ymennydd.<br>• Nodi'r gwahanol newidiadau i'r ymennydd wrth iddynt ddatblygu. | **Cyflwyno'r Ymennydd**<br>Egluro nad y corff corfforol yw'r unig ran o'r corff sy'n parhau i ddatblygu o enedigaeth. | | Llyfrau Gwaith | |
| | **Amlygu:** Yn fwy na dim, mae cyfnod y glasoed yn gyfnod ble mae datblygiad mawr yn digwydd i'r ymennydd.<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr:<br>• C1. Pa oedran fyddwch chi pan fo'r ymennydd wedi datblygu'n llawn?<br>Gofynnwch am adborth ar pam eu bod wedi dewis yr oedran cyn rhannu'r ateb cywir; **25** | Gweithgaredd Dosbarth | Dwylo i fyny | |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Ffeithiau am yr ymennydd**<br>• Dangoswch y llun o'r ymennydd ac archwilio ac esboniwch y gwahanol rannau o'r ymennydd.<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr baru'r 3 gwahanol ran o'r ymennydd trwy dynnu llinell o'r gair i'r ymennydd yn eu llyfrau gwaith.<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar y ffeithiau yn y Llyfrau Gwaith a dewis eu ffefryn. Gofynnwch am wirfoddolwyr i rannu eu ffefrynnau a pham y gwnaethon nhw ddewis y ffaith honno. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith<br><br>Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Taflen Waith yr Ymennydd (wedi'i atodi) Tudalen llyfr gwaith 14<br><br>Tudalen llyfr gwaith 15 | Dosbarth Cyfan Unigolyn<br><br>Unigolyn |


**Cortecs**
Rhan Beirniadu a Rhesymu
Oed 3–6
**System Limbig**
Rhan Emosiynau
Oed 1–4
**Cerebelum**
Rhan Modur
Oed 0–2
**Coesyn yr Ymennydd**
Rhan Goroesi Sylfaenol
Cyn Geni – 8 Mis

| Thema 2. Fy Natblygiad | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad fy Ymennydd**<br><br>**Nod:** I archwilio'r rhan o'r ymennydd sy'n rheoli ein hemosiynau ac adnabod gwahanol ymatebion i'r ymennydd a'r hyn y mae'n eiyn ei wneud i'r corff.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Archwilio rhan o'r ymennydd a oedd yn rheoli emosiynau, yr Amygdala.<br>• Adnabod gwahanol ymatebion yr ymennydd.<br>• Adnabod y teimladau yn y corff pan mae'r ymennydd yn ennyn yr emosiwn ymladd/ffoi a rhewi. | **Amlygwch y ffaith 'Mae eich ymennydd yn rheoli eich emosiynau'.**<br>Gellir dod o hyd i hyn ar y daflen ffeithiau yng nghanol Llyfrau Gwaith y myfyrwyr | | Llyfrau Gwaith | |
| | Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n cofio: **Pa ran o'r ymennydd sy'n rheoli emosiynau?** | Gweithgaredd Dosbarth | Dwylo i fyny | |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Ymatebion yr Ymennydd: Ymladd/Ffoi/Rhewi**<br>• Darllenwch beth mae'r ymatebion 'Ymladd', 'Ffoi' a 'Rhewi' yn ei olygu a gofyn i'r myfyrwyr ysgrifennu'r ymateb cywir i'r diagram llun cywir ar y daflen waith.<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr baru'r enghreifftiau ymateb yn y daflen waith i bob pennawd ymateb trwy dynnu llinell i bob un.<br>• Eglurwch mai pob un o'r ymatebion yw'r hyn y gallant deimlo neu edrych ar eu cyrff eu hunain neu gorff rhywun arall.<br>**Amlygu:** Nid yw bob amser yn hawdd gweld, a gall cyrff ymateb mewn gwahanol ffyrdd, felly weithiau gall mwy nag un ateb fod yn berthnasol i'r enghreifftiau.<br>Wrth i'r dosbarth cyfan fynd drwy'r atebion, gan adael amser ar gyfer trafod ac egluro hynny yn nes ymlaen yn y rhaglen rydym ynmynd i'w helpu i feddwl am strategaethau o cefnogi'r atebion hyn. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 16 | Unigolyn |

## Thema 3
# Fy Emosiynau



| Thema 3. Fy Emosiynau | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Eich meddyliau a'ch teimladau**<br><br>**Nod:** Adnabod eu meddyliau a'u teimladau mewn perthynas â'u cyrff ac ystyried sutmaent yn teimlo am breifatrwydd, cyffwrdd a'u cyrff. Eu helpu i ddeall ffyrdd o gyfathrebu'r teimladau hyn yn briodol a ble i gael cymorth.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Adnabod eu teimladau ynghylch preifatrwydd a chael eu cyffwrdd.<br>• Ymchwilio ffyrdd o gyfathrebu teimlo'n briodol gan ddefnyddio gwahanol senarios.<br>• Ystyried sut y gallant nodi sut efallai bod rhywun arall yn teimlo am eu cyrff a chael eu cyffwrdd.<br>• Trafodwyd y gefnogaeth sydd ar gael. | **Cyflwyno'r thema**<br>Ailadroddwch y cysylltiad rhwng yr ymennydd a sut rydyn ni'n meddwl a theimlo pan rydym yn teimlo bod rhywbeth o'i le. | | | |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>Eglurwch i'r myfyrwyr ein bod yn mynd i drafod sut rydym yn meddwl ac yn teimlo pan nad ydym yn hapus gyda rhywbeth ac egluro hynny yn gyntaf mae angen iddynt wybod y gwahaniaeth rhwng eu meddyliau, eu teimladau a'u gweithredoedd.<br>**Gweithgaredd – Meddyliau, Teimladau, Gweithredoedd**<br>Trafodwch mewn grwpiau bach, yna defnyddio'r geiriau a restrir yn eu llyfrau gwaith:<br>• Croes wrth **'meddwl'**<br>• Tic wrth **'teimlad'**<br>• Cylch o amgylch geiriau **'gwneud'**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am sut y bydden nhw o bosib yn teimlo pe bydden nhw'n cael eu cyffwrdd, ac nad oeddent yn gyfforddus gyda hyn neu os nad yw rhywun yn parchu eu preifatrwydd.<br>**Sut fyddech chi'n teimlo?** Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu eu meddyliau yn eu llyfrau gwaith. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith<br><br>Myfyrdod<br><br>Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 17<br><br>Tudalen llyfr gwaith 18 | Unigolyn<br><br>Unigolyn |

| Thema 3. Fy Emosiynau | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd – Ymatebion y Corff**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am yr hyn sy'n digwyddyn fewnol pan fyddwn yn ansicr o rywbeth ac mewn grwpiau bach trafodwch beth sy'n digwydd y tu mewn i'w cyrff pan fydd hyn yn digwydd..<br><br>**Sut maen nhw'n teimlo y tu mewn?**<br>Gofynnwch iddynt dynnu llun neu ysgrifennu'r teimladau hyn ar y sgerbwd yn eu llyfr gwaith.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y canlynol hefyd: ffactorau allanol sydd o bosib yn dangos nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus gyda rhywbeth.<br><br>**Beth ellir ei weld?**<br>Tynnwch lun neu ysgrifennwch y rhain y tu allan i ddiagram y corff.<br><br>**Ystyried sut y gallai rhywun deimlo. (Ar-lein ac all-lein)**<br>Gall hefyd fod yn anodd adnabod teimladau rhywun os ydynt yn dweud wrthych amdanynt. Sut mae adnabod teimladau rhywun? – **Gofynnwch iddyn nhw!**<br><br>Archwiliwch yn fyr y defnydd o gyfathrebu llafar i ddangos neu adnabod rhywbeth nad ydych chi neu rywun arall yn hapus gydag ef. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 19 | Unigolyn |
| | **Gweithgaredd – Beth yw Cydsyniad**<br><br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw wedi clywed am Gydsyniad ac os felly, beth mae cydsyniad yn ei olygu iddyn nhw?<br><br>• Mewn grwpiau bach gofynnwch i'r myfyrwyr drafod a nodi beth yn eu barn hwy yw ystyr cydsyniad?<br><br>**'Rhoi Caniatâd, Gofyn am Ganiatâd'**<br><br>Pob grŵp i roi adborth i'r dosbarth cyfan. | Gweithgaredd Dosbarth | Siart droi Papur | Grwpiau Bach |

| Thema 3. Fy Emosiynau | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflwyno Cyfathrebu Dieiriau**<br><br>• **Adnabod cyfathrebu dieiriau**<br>Eglurwch i'r myfyrwyr mai ffordd arall o nodi sut mae rhywun yn teimlo neu ddangos sut rydych chi'n teimlo yw trwy gyfathrebu dieiriau.<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n gwybod beth yw cyfathrebu dieiriau. Yna gofynnwch iddyn nhw am rai enghreifftiau. | Gweithgaredd Dosbarth | | Dosbarth Cyfan |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br><br>**Gweithgaredd – Teimladau Mud-chwarae (Charades)**<br><br>Rhowch set o deimladau i bob grŵp a gofynnwch iddyn nhw roi cynnig yn eu tro ar chwarae allan y sefyllfaoedd a gall y grŵp sy'n weddill ddyfalu'r ateb. | Gweithgaredd Dosbarth | Cardiau Teimlo | Grwpiau Bach |
| | **Gofynnwch – A oes gennych unrhyw bryderon am gyrff, preifatrwydd neu gyffwrdd?** Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi unrhyw un o'r pryderon hyn yn eu llyfrau gwaith? | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 2 | Unigolyn |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br><br>**Gweithgaredd – Estyn Help Llaw**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr dynnu llun o amgylch eu llaw yn eu llyfrau gwaith a gofyn iddynt ysgrifennu neu dynnu llun ar gledr eu llaw, fannau y gallent fynd i gael cymorth pe baent yn teimlo'n analluog i gyfleu eu teimladau i rywun. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 24 | Unigolyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| HAPUS | SYNNU | TRIST | SIOC |
| OFNUS | OFN | GYFFROUS | DIFLASTOD |
| DICTER | YMDDIRIED? | LLAWENYDD | ANGHYFFORDDUS |
| CYFFORDDUS | ANNWYL | DDIGARIAD | GYWILYDD? |
| GYWILYDD | NERFUS | TAWEL | EUOG |

# Thema 4
# Fy Myd

**Fy Mherthnasoedd**

**Fy Mherthnasoedd Ar-lein**

**Fy Nghefnogaeth**



| Thema 4. Fy Myd | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Fy Mherthnasoedd**<br><br>**Nod:** Archwilio'r gwahanol gydberthnasau sydd gan myfyrwyr yn eu bywydau ac archwilio ffactorau sy'n helpu i nodi perthnasoedd iach daar-lein ac all-lein.<br><br>**Amcanion**<br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Adnabod y gwahanol gydberthnasau yn eu bywydau.<br>• Cydnabod y gwahaniaethau rhwng y perthnasoedd a archwiliwyd.<br>• Archwilio'r gwahaniaeth rhwng mddygiad ei hunan a phobl eraill ar-lein mewn perthnasau a gwahaniaethu rhwng ffactorau iach a rhaid nad ydyn yn iach ar-lein ac all-lein. | **Cyflwyno'r Thema**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y cwestiynau canlynol ac ysgrifennu' atebion yn eu llyfrau gwaith:<br>• **C1.** Beth yw perthnasoedd?<br>• **C2.** Pa fath o berthnasoedd sydd gennych yn eich bywydau? | Myfyrdod<br>Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 20 | Unigolyn |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Mathau o Berthnasoedd**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr drafod mewn grwpiau bach pa fathau o berthnasoedd sydd ganddynt yn eu bywydau a'u hysgrifennu yn eu llyfrau gwaith.<br>**Esbonio –** y bydd y ffocws ar y perthnasoedd canlynol: **Teulu** v **Ffrindiau** v **Perthnasoedd agos iawn** | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 20 | Unigolyn |
| | • **C3.** Beth yw perthnasoed agos iawn'?<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ddiffinio 'agos iawn' (intimate) mewn grwpiau bach a rhowch adborth i'r dosbarth cyfan cyn symud ymlaen. | Gweithgaredd Dosbarth | Siart droi<br>Papur Beiros | Grwpiau Bach |
| | **Gweithgaredd – Rysáit Cyfeillgarwch**<br>Teimladau o fewn perthynas agos Gofynnwch a thrafodwch yn fyr y cwestiynau canlynol:<br>**Dylech annog ymateb gan y dosbarth.** | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 21 | Unigolyn |

| Thema 4. Fy Myd | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Fy Mherthnasoedd** | **Ystyriwch ofyn y cwestiynau canlynol:**<br>• **C4.** A fyddai gennych yr un cynhwysion mewn cyfeillgarwch agos?<br>• **C5.** Beth fyddai'n wahanol?<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ychwanegu'r rhain yn eu llyfrau gwaith. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 21 | Unigolyn |
| | **Cyflwyno'r Gweithgaredd**<br>**Gweithgaredd – Teimladau o fewn perthynas agos**<br>Gofynnwch a thrafodwch yn fyr y cwestiynau canlynol:<br>• Sut byddai'r berthynas hon yn gwneud i chi deimlo?<br>• Sut mae'r teimladau hyn yn gwneud i'ch corff deimlo?<br>Gan ddefnyddio'r templed corff yn eu Llyfrau Gwaith, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu neu dynnu llun sut yn eu barn hwy y byddai'r teimladau hyn yn edrych.<br>**Gofynnwch i'r myfyrwyr:** Sut gallwch chi ddangos i rywun eich bod yn hoff iawn ohonynt?<br>(Gall y gweithgaredd hwn hefyd fod yn effeithiol fel ymarfer chwarae rôl)<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr am adborth gan bob grŵp. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith<br><br>Gweithgaredd Dosbarth | Tudalen llyfr gwaith 22<br><br>Siart droi Papur Beiros | Unigolyn<br><br>Grwpiau Bach |

| Thema 4. Fy Myd | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Fy Mherthnasoedd**<br><br>**Nod:** Archwilio'r gwahanol gydberthnasau sydd gan y myfyrwyr yn y byd digidol ac archwilio ffactorau sy'n helpu i nodi perthnasau cadarnhaol er mwyn cadw'ch hun yn ddiogel ar-lein.<br><br>**Amcanion**<br><br>Erbyn diwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br><br>• Cydnabod y gwahaniaethau rhwng perthnasoedd ar-lein ac all-lein.<br>• Archwilio gwahanol fathau o ymddygiad eu hunan ac eraill wrth gyfathrebu ar-lein. | **Perthnasoedd Ar-lein**<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y perthnasoedd yr ydym eisoes wedi'u trafod, yng nghyd-destun perthnasoedd yn y byd digidol.<br><br>**Dwylo i fyny** os ydych chi'n meddwl bod perthnasoedd ar-lein yr un fath a pherthnasoedd all-lein, gan ddefnyddio'r enghreifftiau canlynol:<br><br>• Cyfeillgarwch v Agosatrwydd.<br>• Teulu v Cyfeillgarwch.<br><br>Ystyriwch y cwestiynau canlynol:<br><br>• Ydych chi'n teimlo'r un peth neu'n wahanol gyda pherthnasoedd ar-lein?<br>• Ydych chi'n wahanol gyda phobl ar-lein v gyda phobl wyneb yn wyneb?<br>• Pam ydych chi'n credu eich bod chi neu rywun arall yn wahanol ar-lein?<br><br>Unwaith y bydd yr holl adborth wedi'i drafod, dywedwch wrth y myfyrwyr, os ydynt yn ansicr o ymddygiad neu fwriadau rhywun ar-lein a ddim yn gwybod beth i'w wneud; yr ymateb hawsaf yw **dim ymateb!**<br><br>**Pwysleisiwch** – y dylent bob amser roi gwybod i rywun os ydynt yn ansicr ynghylch ymddygiad rhywun; gallant bob amser eu hanwybyddu neu eu **blocio**. | Trafodaeth Dosbarth | Tudalen llyfr gwaith 23 | Dosbarth Cyfan |

| Thema 4. Fy Myd | Gweithgaredd | Math o Weithgaredd | Adnoddau | Grwpio |
|---|---|---|---|---|
| **Fy Nghefnogaeth**<br><br>**Nod:** Ymchwilio i'r pryderon sydd gennyf am y newidiadau yn fy mywyd yn y dyfodol agos a nodi beth y gallaf ei wneud a ble y gallaf fynd i gael cefnogaeth gyda fy emosiynau.<br><br>**Amcanion**<br>Erbyn diwedd y sesiwn, bydd y myfyrwyr wedi:<br>• Archwilio eu pryderon ynghylch newidiadau yn eu bywydau.<br>• Nodi beth y gallant ei wneud a ble gallan nhw fynd os oes ganddyn nhw pryderon. | **Cyflwyno'r thema**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am eu dyfodol 'cylch bywyd' troi yn berson yn ei arddegau a gofyn y cwestiynau canlyno ac ysgrifennu'r atebion yn eu llyfrau gwaith.<br>• At beth ydych chi'n edrych ymlaen ato?<br>• Pa bryderon sydd gennych chi? (glasoed/symud i Ysgol Uwchradd ac ati). | Myfyrdod<br><br>Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 2 | Unigolyn |
| | **Gweithgaredd – Estyn Help Llaw**<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr fynd yn ôl i'r lluniau o'u dwylo o Thema 3 ac ysgrifennu ar fysedd eu dwylo, enwau'r rheini y gallan nhw siarad a hwy os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau. | Gweithgaredd Llyfr Gwaith | Tudalen llyfr gwaith 24 | Unigolyn |

# Cyfeirnodau

### Girls Talk

Resources to help identify and engage young people at risk of sexual abuse and exploitation | **Barnardo's (barnardos.org.uk)**

### Real Love Rocks R.L.R

Homepage **barnardosrealloverocks.org.uk**



Barnardo's Registered Charity Nos.216250 and SC037605 24765shc24